Pennod 2

Cyfle i bawb weithio

Pennod dau – Cyfle i bawb weithio

Cyflwyniad

1. Rydym am adeiladu ar y llwyddiant a amlinellwyd ym Mhennod 1. Ein nod yw cyflogaeth lawn ac anelwn at gyflawni hyn drwy godi'r gyfradd cyflogaeth i 80 y cant. Mae'r nod o gyflogaeth lawn yn bwysig i bobl oherwydd mae'r cyfle i weithio yn agor i fyny'r cyfle o symud ymlaen, o ddatblygu a chyfranogi yn llawn mewn cymdeithas. Rydym yn gwybod bod pobl mewn gwaith yn aml yn fwy iach ac yn teimlo'n fwy bodlon na phobl sydd ddim.

2. Mae cyflogaeth lawn hefyd yn bwysig i gymdeithas oherwydd mae'r tlodi sy'n gysylltiedig â pheidio a bod yn gweithio yn rhannu ein cymunedau ac yn amddifadu gormod o blant o gyfle teg mewn bywyd. Mae'n bwysig i'r economi oherwydd mae twf economaidd cyson yn dibynnu ar weithlu actif cynyddol: wrth i'r boblogaeth heneiddio, mae twf naturiol y gweithlu yn arafu ac mae angen inni dynnu pobl newydd i mewn. Ac mae cyflogaeth lawn yn bwysig i'r trethdalwr oherwydd cost lles a chyfraniadau is yn nhermau treth incwm i 'r rhai ar fudd-daliadau.

3. Er gwaethaf cynnydd sylweddol ers 1997, mae heriau mawr yn parhau: mae 3.6 miliwn o bobl allan o waith ac nid yw'n ofynnol iddynt Ceisio Gwaith. Mae llawer o'r bobl hyn yn wynebu rhwystrau lluosog sy'n eu hatal rhag dychwelyd i waith.

4. I wireddu ein huchelgais o gyfradd cyflogaeth sy'n cyfateb i 80 y cant o'r boblogaeth weithiol mae angen:

   - gostyngiad o 1 miliwn yn nifer y rhai sy'n hawlio budd-daliadau analluogrwydd;
   - 300,000 yn fwy o rieni sengl mewn gwaith; ac
   - 1 miliwn o bobl hŷn mewn gwaith.

5. Mae angen inni hefyd ymdrin â'r materion penodol sy'n wynebu lleiafrifoedd ethnig, pobl sy'n byw yn ein dinasoedd, pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn a phobl gyda sgiliau isel. Yn ychwanegol mae angen i ni wneud mwy i ymdrin ag anfantais luosog.

6. Rydym yn mynd â diwygiadau yn eu blaen yn erbyn cefndir lle mae mewnfudo i'r DU wedi cynyddu – nid yn unig oherwydd globaleiddio ac ehangu'r Undeb Ewropeaidd, ond hefyd oherwydd y ffaith bod ein marchnad lafur hyblyg mor ddeniadol. Yn hytrach na diweithdra uwch, y canlyniad fu mwy o swyddi i fudwyr a phobl leol fel ei gilydd. Dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007, hyd yn oed wrth i oddeutu 240,000 o weithwyr o'r aelod wladwriaethau newydd o'r Undeb Ewropeaidd gofrestru i weithio yn y DU, gostyngodd hawliadau diweithdra o 33,000.

7. Er hynny, nid yw argaeledd gweithwyr medrus a hyblyg o dramor yn cwtogi mewn unrhyw fodd ar yr angen i sicrhau y gall ein poblogaeth ein hunain gystadlu yn fwy effeithiol yn y farchnad lafur a gwella eu sgiliau. Yna gallant gael gwell siawns o fanteisio ar un o'r 600,000 o swyddi gwag sy'n ymddangos bob un mis.

Yr heriau

Pobl sy'n sâl dros dymor hir a'r anabl

8. Tra bod y Fargen Newydd a Llwybrau at Waith wedi dechrau ar y broses o gysylltu â'r grŵp hwn yn llwyddiannus, mae heriau sylweddol yn parhau, gyda 2.67 miliwn o bobl yn dal i hawlio budd-daliadau analluogrwydd. Rhan o'r broblem yw'r budd-dâl ei hun. Mae'n gymhleth ac yn anodd ei ddeall. Mae'r gyfradd budd-dâl hefyd yn cynyddu po hwyaf y mae rhywun yn aros ar fudd-dâl, gan atal pobl rhag dychwelyd i'r gwaith.

9. Mae'n arbennig o anodd i bobl sydd wedi bod ar fudd-dâl am amser hir i dorri i mewn i fyd gwaith. Wedi i rywun fod ar fudd-daliadau analluogrwydd am fwy na dwy flynedd maent yn fwy tebygol o farw neu ymddeol nag o symud oddi ar fudd-dâl i ddychwelyd i waith.

Rhieni sengl

10. Er bod y gyfradd cyflogaeth i rieni sengl wedi gwella'n sylweddol, ar 56.5 y cant mae'n dal ymhell o dan y gyfradd cyflogaeth gyffredinol. Problem allweddol yw bod rhy ychydig o bobl yn manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael.

11. Mae'r plant sy'n byw gyda rhiant sengl di-waith dros dair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi na'r rhai hynny sy'n byw gyda rhiant sengl sydd mewn gwaith rhan-amser. Maent hefyd wyth gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi pan gymharir nhw â rhai y mae eu rhieni yn gweithio yn amser llawn. Mae angen i ni felly fynd ymhellach i gefnogi rhieni sengl i fynd yn ôl i'r gwaith.

Pobl hŷn

12. Er gwaetha'r gwelliannau mawr a wnaed dros y degawd diwethaf, mae cyfradd cyflogaeth bobl hŷn yn dal yn is na'r gyfradd gyffredinol (70.7 y cant o'i gymharu â 74.3 y cant yn Chwefror-Ebrill 2007) a'r gyfradd ar gyfer pobl rhwng 35 a 49 oed (82.1 y cant). Gallent yn aml wynebu rhwystrau lluosog i gyflogaeth – diffyg sgiliau, cyfrifoldebau gofalu (perthynas sy'n sâl yn aml), materion ynglŷn ag iechyd personol, a gwahaniaethu ar sail oed.

Lleiafrifoedd ethnig

13. Er ei bod yn gwella, mae'r sefyllfa i lawer o leiafrifoedd ethnig yn parhau yn heriol. Yn gyffredinol maent yn fwy na dwywaith mor debygol o fod yn ddi-waith â phobl wyn ac un a hanner gwaith yn fwy tebygol na'r boblogaeth oed gwaith cyffredinol i fod yn anweithredol yn economaidd. Mae'r cyfraddau cyflogaeth ar gyfer rhai grwpiau yn eithriadol o isel: y cyfraddau cyflogaeth ar gyfer merched Pacistanaidd a Bangladesaidd yw 27.6 y cant a 26.4 y cant yn y drefn honno.

14. Nid yw llawer o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd allan o waith yn hawlio budd-dâl er eu bod ar incymau isel iawn. Y canlyniad yw cyfraddau uchel iawn o dlodi ymysg plant. Yn gyffredinol mae'r plentyn sydd mewn teulu lleiafrif ethnig ddwywaith mor debygol o dyfu i fyny yn dlawd. Mae tri chwarter plant Bangladesaidd a deuparth plant Pacistanaidd yn tyfu i fyny mewn tlodi.

Dinasoedd

15. Mae'r crynodiadau mwyaf sydd ar ôl o bobl nad ydynt yn gweithio ac o dlodi yn ein dinasoedd mawr. Mae gan Manceinion, Birmingham, Lerpwl a Llundain, ymysg eraill, gyfraddau cyflogaeth sydd 10 pwynt canran neu fwy o dan y cyfartaledd cenedlaethol.

Pobl ifanc 16-17 oed

16. Er bod cyfraddau aros ymlaen mewn addysg wedi cynyddu, mae'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer rhai 16 i 17 oed nad ydynt mewn addysg wedi dirywio o dros 10 y cant yn y deng mlynedd diwethaf. Mae 105,500 o bobl ifanc y tu allan i'r systemau gwaith, addysg a hyfforddiant, o'i gymharu â 86,000 yn 1987[6]. Mae bod â llwyfan sylfaenol o sgiliau yn mynd yn fwy a mwy pwysig i bobl ifanc wrth iddynt fynd i mewn i'r farchnad lafur. Rhaid i'n blaenoriaeth sicrhau bod rhai 16 ac 17 oed mewn addysg neu hyfforddiant, naill ai yn amser llawn neu wrth weithio. Rydym wedi argymell felly fod yr oed isafol y gall pobl ifanc adael addysg neu hyfforddiant yn cael ei godi i 18.

[6] Statistical First Release – 'Participation in Education, Training and Employment by 16-18 Year Olds in England 2005 and 2006'.

Sgiliau isel

17. Mae pobl gyda sgiliau sydd wedi dyddio neu ddim cymwysterau o gwbl yn cael amser anodd iawn yn y farchnad lafur. Er bod y nifer o bobl o oed gwaith heb unrhyw gymwysterau wedi haneru ers 1992, mae'r gyfradd cyflogaeth wedi dirywio o sefyllfa isel o 57.6 y cant yng ngwanwyn 1992 i rif hyd yn oed yn is o 47.1 y cant yng ngwanwyn 2006. Y broblem allweddol yw diffyg sgiliau sylfaenol, a all gynnwys llythrennedd, rhifedd, hyfedredd mewn Saesneg a sgiliau cyflogadwyedd fel gweithio mewn tîm neu wasanaeth y cwsmer. O'i gymharu â phobl eraill o oed gwaith nad ydynt mewn gwaith, mae'r rhai hynny gyda sgiliau isel yn llawer llai tebygol o hyd yn oed fod yn chwilio am swydd. Maent hefyd yn fwy tebygol o ddioddef o anfanteision eraill, fel afiechyd neu o fyw mewn ardal gyda chyfradd cyflogaeth isel.

Casgliad

18. Dyma rai o'r heriau sy'n ein hwynebu wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf diwygio lles. Mae'r penodau canlynol yn cyflwyno'n fanylach argymhellion y Llywodraeth ar gyfer ymdrin â nhw. Mae Pennod 3 yn edrych ar sut y gall y Llywodraeth weithio gyda chyflogwyr i agor mwy o gyfleoedd gwaith i rai sydd yn hawlio budd-daliadau. Mae Pennod 4 yn ystyried y camau pellach sy'n angenrheidiol i wella ac ymestyn cefnogaeth i unigolion di-waith, mae Pennod 5 yn cyflwyno ein hargymhellion i ddefnyddio'r bobl orau – boed hynny yn y sector gyhoeddus, breifat neu'r drydedd sector – i gyflwyno ein system lles.

19. Mae gan nifer o argymhellion penodol yn y Papur Gwyrdd hwn, wrth gwrs, oblygiadau o ran adnoddau; er enghraifft yr argymhellion mewn perthynas â rhieni sengl a Phartneriaethau Cyflogaeth Lleol. Felly mae natur ac amseriad y newidiadau a argymhellir yn dibynnu ar argaeledd adnoddau.